


# Gwobrau RTS Cymru Wales 2020
# Rheolau mynediad

Dylai fod cysylltiad â Chymru gan yr holl gynnwys a gyflwynir. Rhaid iddo fod naill ai wedi ei wneud yng Nghymru a/neu wedi ei wneud gan bobl sydd â chanolfan fusnes sylweddol yng Nghymru.

Mae pedwar categori cynhyrchu: Drama, Ffeithiol, Rhaglenni Plant a Materion Cyfoes a Newyddion. Rydym yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan unigolion yn ogystal â'r rhai a noddir gan gwmnïau. Dyma gyfle i arddangos afon eich cynnyrch.

Bydd aelodau'r paneli beirniadu annibynnol yn cael eu dethol o blith gweithwyr cynhyrchu proffesiynol a darlledwyr ledled y DU, a byddwn yn cyhoeddi'r rhestr o feirniaid ar ôl i'r enwebiadau gael eu cyhoeddi.

**Am beth mae'r beirniaid yn chwilio?**
Bydd gwobr yn cael ei rhoddi i'r rhaglen/cynnwys sy'n dangos safon eithriadol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: safon cyffredinol, creadigrwydd, proffesiynoldeb, gwreiddioldeb ac arloesedd.

Rhaid i bob rhaglen/cynnwys fod wedi ei ddarlledu neu ei gyhoeddi rhwng **30 Medi 2018** ac **1 Hydref 2019**.

Darllenwch y telerau a'r amodau yn ofalus, yn ogystal â'r meini prawf byr ar gyfer pob categori. Croesewir ceisiadau gan gynhyrchwyr sy'n cynnig cynnwys ar lwyfannau'r tu hwnt i'r teledu cyn belled â bod y cynnwys wedi ei greu gan gwmni cynhyrchu/unigolyn sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Rhaid i bob rhaglen/cynnwys mewn unrhyw gyfrwng naill ai gael ei gynhyrchu yng Nghymru neu, yn achos cydgynyrchiadau rhyngwladol, rhaid bod mewnbwn golygyddol sylweddol o Gymru (o leiaf 50%) yn ogystal â mewnbwn ariannol (o leaif 30%).

Y dyddiad cau **terfynol** ar gyfer ceisiadau yw **canol nos** dydd Gwener 10 Ionawr 2020.

Os bydd eich rhaglen/cynnwys yn cyrraedd rhestr fer, bydd disgwyl i chi ddarparu clip byr o ansawdd darlledu i'w ddangos fel rhan o gyflwyniad yn y seremoni wobrwyo.

**CYNGOR MYNEDIAD**

Argymhellir i chi ddarllen y canllawiau cymorth mynediad i Wobrau'r RTS cyn creu eich cyfrif.

Mae'r rhain ar gael fan hyn *(nid yw'r wefan ar gael yn Gymraeg)*: [https://rts.org.uk/rts-awards-admin-support-page.](https://rts.org.uk/rts-awards-admin-support-page)

**FFI MYNEDIAD**

Cost pob cais yw £50 gan gynnwys TAW.

**TELERAU AC AMODAU**

Nid oes angen i gynyrchiadau fod am Gymru, ond rhaid iddynt fod wedi eu creu gan unigolion neu gwmnïau cynhyrchu â chanolfan sylweddol yng Nghymru.

Bydd rhaglenni a gyflwynir ar gyfer Gwobrau RTS Cymru yn dal i fod yn gymwys ar gyfer gwobrwyon eraill yr RTS ledled y DU. Gall cynyrchiadau gan gwmnïau annibynnol wedi'u lleoli yng Nghymru gael eu henwebu naill ai gan y cwmni ei hun neu gan y darlledwr.

Mae cydgynyrchiadau'n gymwys ar yr amod eu bod yn boddhau meini prawf cynhyrchu'r cenhedloedd a'r rhanbarthau. Os bydd unigolion yn cyflwyno ceisiadau, rhaid darparu caniatâd ysgrifenedig a chydnabyddiaeth gan ddeiliaid yr hawlfraint.

Rhaid gwneud y taliad cywir a llawn gyda phob cais, ac os na chaiff y taliad ei wneud erbyn 10 Ionawr 2020, ni fydd y cais yn gymwys i'w farnu.

Mae'r beirniaid yn cadw'r hawl i symud rhaglen/cynnwys o un categori i'r llall os yw wedi'i gyflwyno yn y categori anghywir yn eu barn nhw.

Mae'r RTS yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw gategori os yw nifer y ceisiadau'n peri iddo fod yn anymarferol. Os digwydd hyn, caiff y ffioedd eu had-dalu.

Gellir cyflwyno rhaglenni/cynnwys yn Gymraeg neu Saesneg ym mhob categori. Rhaid cyflwyno rhaglenni/cynnwys Cymraeg gydag is-deitlau Saesneg. Telir costau is-deitlo gan yr ymgeiswyr ac nid cyfrifoldeb yr RTS mohonynt.

Nid oes uchafswm i nifer y rhaglenni/cynnwys y gellir eu cyflwyno gan unigolyn neu sefydliad ac eithrio yn achos y Wobr Esblygiad, sy'n gyfyngedig i ddau gais fesul cyflogwr. Mae'n rhaid talu ffi mynediad ar wahân ar gyfer pob cais.

**HAWLIAU A CHYHOEDDUSRWYDD**

Wrth gyflwyno cais, rhaid i bob ymgeisydd fod wedi sicrhau bod yr holl hawliau wed eu clirio ar gyfer dangos clipiau yn ystod y noson wobrwyo ac fel rhan o ymgyrch hyrwyddo a

marchnata'r gwobrau ac ar wefan yr RTS: https://rts.org.uk. Os bydd cynhyrchiad buddugol naill ai'n gydgynhyrchiad neu'n gynhyrchiad annibynnol a gomisiynwyd gan ddarlledwr, dylid rhoddi'r wobr ac unrhyw ddatganiadau i'r wasg/cyhoeddusrwydd i'r ddau barti, a rhoddir credyd ysgrifenedig/llafar i'r ddau barti.

Rhaid cyfeirio at y gwobrau hyn fel 'Gwobrau RTS Cymru Wales Awards'. Rhaid i ddarlledwyr beidio â datgan bod enillwyr wedi 'ennill gwobr RTS' neu ymadrodd tebyg mewn unrhyw gyhoeddiad mewn unrhyw gyfrwng, am fod hyn yn drysu canfyddiad y cyhoedd o'r gwobrau yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau o'u cymharu â gwobrau'r DU.

Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol.

## Categorïau:

### Ffeithiol

Gwobr am ragoriaeth wrth gynhyrchu rhaglen/cynnwys ffeithiol neu gyfres gan gynnwys ffeithiol poblogaidd ac arbenigol, e.e. gwyddoniaeth, crefydd, hanes, antur, y celfyddydau.

Gall ceisiadau fod yn rhaglenni unigol neu'n rhan o gyfres, ermai un bennod yn unig y gellir ei chyflwyno fesul cyfres.

Bydd y beirniaid yn edrych am safon, gwreiddioldeb, creadigrwydd a phroffesiynoldeb drwy gydol y cynhyrchiad.

### Drama

Gwobr am y cynnwys gorau wedi'i sgriptio, e.e. drama gyfres neu unigol, comedi, comedi-drama, cyfres sy'n dychwelyd.

Dylai'r prif saethu o leiaf fod wedi ei wneud yng Nghymru (60%) a/neu dylai'r ddrama fod wedi ei chynhyrchu yng Nghymru yn bennaf. Rhaid cyflwyno un bennod yn achos cyfres wedi'i sgriptio neu'r rhaglen gyfan yn achos dramau unigol.

Bydd y beirniaid yn chwilio am storïau o safon uchel, gwreiddioldeb, creadigrwydd ac arbenigedd technegol drwy gydol y cynhyrchiad.

### Rhaglenni Plant

Gwobr am ragoriaeth wrth gynhyrchu rhaglen/cynnwys ffeithiol ac adloniant neu gyfres neu animeiddio a gynhyrchwyd ar gyfer cynulleidfa blant ac a ddarlledwyd yn ystod oriau plant. Gall ceisiadau fod yn rhaglenni unigol neu gyfres, er mai un bennod o gyfres yn unig y gellir ei chyflwyno.

Bydd y beirniaid yn edrych am safon, gwreiddioldeb, creadigrwydd a phroffesiynoldeb drwy gydol y cynhyrchiad.

**Newyddion neu stori materion cyfoes**
Gwobr am un adroddiad newyddion/materion cyfoes neu eitem newyddion/materion cyfoes sy'n sefyll allan ac sy'n dangos safon uchel o newyddiaduraeth, cynhyrchu a chyflenwi technegol.

Bydd y beirniaid yn chwilio am ansawdd, gwreiddioldeb, creadigrwydd a phroffesiynoldeb, yn ogystal â gwerthoedd newyddion dilys.

Gall ceisiadau gynnwys unrhyw ddeunydd o raglenni newyddion neu faterion cyfoes a wneir gan dîm sydd wedi ei leoli yng Nghymru.

**Gwobr Esblygiad**
Mae'r wobr hon ar gyfer talent sy'n esblygu yn y diwydiant teledu yng Nghymru.

Rhaid bod gan unigolion o leiaf dwy flynedd o brofiad o weithio ym myd teledu.
Gallant fod mewn swydd gyflogedig mewn unrhyw faes yn y broses y tu ôl i'r camera, gan gynnwys datblygu, ymchwil, rheoli cynhyrchu a phob rôl grefft.
Gallant fod yn llawrydd neu mewn swydd staff. Cânt eu henwebu gan gyflogwr, gydag uchafswm o ddau gais fesul cyflogwr.

Bydd y beirniaid am weld tystiolaeth o unigolyn eithriadol sydd wedi dangos talent, creadigrwydd, proffesiynoldeb a llawer o botensial arbennig.

Dylai'r enwebiad fod yn un ysgrifenedig, rhwng 500 a 1000 o eiriau o hyd, a gellir ei gefnogi gyda fideo i ddangos gwaith yr ymgeisydd.